O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2023 Rhif 495 (Cy. 74)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Ffordd Ymuno tua'r Gogledd yn Ffynnon Taf, Rhondda Cynon Taf) (Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *2 Mai 2023* |
| *Yn dod i rym* | *5 Mai 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A470 Caerdydd i Langurig, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi neu oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd sy'n deillio o gludo llwythi anwahanadwy annormal.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 14(1), (4) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Ffordd Ymuno tua'r Gogledd yn Ffynnon Taf, Rhondda Cynon Taf) (Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2023 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 5 Mai 2023.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

---

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio i gludo llwythi anwahanadwy annormal i ddepo Trafnidiaeth Cymru yn Ffynnon Taf, Rhondda Cynon Taf;

ystyr "cyfnod y cludo" ("*transportation period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 5 Mai 2023 ac sy'n dod i ben pan fo'r gwaith o symud yr holl lwythi anwahanadwy annormal wedi ei gwblhau;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 22:00 o'r gloch ar 5 Mai 2023 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw'r darn o ffordd ymuno tua'r gogledd cefnffordd yr A470 Caerdydd i Langurig yn Ffynnon Taf, Rhondda Cynon Taf.

### Gwaharddiadau

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd sy'n 2.85 metr o led neu'n lletach, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y cludo, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn.

### Cymhwyso

**5.** Nid yw'r gwaharddiadau yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

### Dirymu

**6.** Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Ffordd Ymuno tua'r Gogledd yn Ffynnon Taf, Rhondda Cynon Taf) (Gwahardd Cerbydau Llydan Dros Dro) 2022(**1**) a Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Ffordd Ymuno tua'r Gogledd yn Ffynnon Taf, Rhondda Cynon Taf) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2023(**2**) wedi eu dirymu.

### Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

---

(**1**) O.S. 2022/650 (Cy. 143).
(**2**) O.S. 2023/1 (Cy. 1).

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 2 Mai 2023

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru